# GLYN ANGEU;

NEU


# ALLWEDD MYFYRDOD

AR

## DDYDD MARWOLAETH,

WEDI EU GOSOD ALLAN

## AR DDULL CAN.



1860.

# GLYN ANGEU.

'MOFYNWN bawb am Grist mewn undeb,
Cyn myn'd oddi yma i dragwyddoldeb;
Nis gwyddom ddim pa awr na mynyd,
Y byddwn yn y trag'wyddolfyd.

Llawer iawn mae angeu diran,
Yn tori lawr o bob ryw oedran,
Mae en tramwy draw ac yma,
O dan' gommands y Duw Jehofa.

Braidd na chlywaf swn wylofain,
Dagrau'n llifo a rhai'n llefain,
Y fam yn gweiddi gyda galar,
O angeu creulon beth yw'th fatar,

A leddi di fy maban gwiron,
Sydd yn sugno llaeth fy nwyfron,
Angeu, angeu, aros dipyn,
Paid a lladd fy anwyl blentyn.

'Beth wy'n hidio, medd yr angeu,
Ei fod yn sugno llaeth dy fronau,
Nid oes amser i mi oedi,
'Rwy' dan gommands y brenin Iesu.

Fe dyr angeu'r undeb nesaf,
Sydd rhwng y gwr a'r wraig anwylaf,
Braidd na chlywaf y wraig yn llefain,
Fel yn gweiddi a llais gwylofain,

Gan ddywedyd, Angeu creulon,
A leddi di fy mhriod tirion!
O paid a bod mor ddidosturi,
A'r holl blant bychain heb eu magu.

X205 223612

Nid wyf fi' medd Angeu i hono,
A thi wraig yn cydymdeimlo,
Ti ga'i alaru, ti gai wylo,
O'm rhan i nid wyf yn hidio.

'Mlaen y gorchwyl âf, medd angeu,
Am hyny 'nawr partoa dithau,
F'allai foru daw dy ddiwrnod,
Ymbar'toa a bydd yn barod.

F'allai'r fam yn gorfod myned,
A gadael 'nol ei phlant ymddifaid,
A'r baban bach bydd yno'n gwaeddi,
Ar dori'i galon am ei fami.

Y mae'r angeu yn ddiarbed,
Yn gwa'nu rhwng y corff a'r enaid,
Chwi ieuengctyd glân sydd yn eich blodau,
Er tecced heddyw yw eich gruddiau.

Yn fuan bydd eich traed yn oerllyd,
Fe fydd eich dwylaw'n methu syflyd,
Fe fydd eich gwaed yn dechreu rhewi,
Ym mhob gwythien bydd yn oeri.

Llinynau eich llygaid fydd yn tori,
A'ch tafod ffraeth a fydd yn tewi,
A'ch cyfeillion hefyd yn troi cefnau,
A'r enaid bach yn myn'd i siwrnau.

Ac os heb undeb bydd a'r Iesu,
Pa fodd gwna'r enaid y pryd hyny?
Ie, a'th ail-eni fydd y swcwr,
Heddwch Duw trwy waed Cyfryngwr.

Cyfiawnder Crist a'r wisg briodas,
Am dy enaid cofia'n addas,
Calon sanctaidd sydd yn eisiau,
Ac edifeirwch am bob beiau.

Ond fe â dros greigiau dystryw,
Gyda llyferiant y môr marw,
Ti golli'th gyfoeth a'th lawenydd,
A phob trugaredd yn dragywydd.

Y mae angeu yn ddychrynllyd
I'r annuwiol pan ddel i'w symud;
Coffa'r amser gam-ddefnyddiwyd,
Gwaed ac aberth Crist a sathrwyd.

Mae marw yn elw mawr i'r duwiol,
Rhyddhau oddiwrth bob trafferth bydol,
Oddiwrth bob ofnau ac amheuon,
Cystudd, tlodi, a phob trallodion.

Fe gaiff ei enaid ef yn angeu
Fyn'd i gyfeillach y glân seintiau,
A chyfeillach yr angylion,
I foli Iesu, Brenin Seion.

Dyma gyfeillach llawn o undeb,
A chariad pur i dragwyddoldeb,
Pob rhyw alar wedi darfod,
Pob afiechyd, pob ryw bechod.

Telynau aur fydd yn eu dwylo,
Yn moli'r Oen fu yn concwero;
Hwy gyd-gordiant Haleluia,
Am eu golchi yn ngwaed Calfaria.

'Mofynwn ninau bechaduriaid,
'Nawr mewn pryd am arch i'r enaid,
Cyn y delo hirnos angeu,
Pan yn fudan fo'n tafodau.

DIWEDD.

Stephen Jones
Llanfair...
Clarach...